# Gweddïo dros Wcráin

**Gweddi ar gyfer 3 Ebrill 2022**

Dduw'r holl bobloedd a’r holl genhedloedd,
a greodd bopeth byw ac sy’n anadlu,
yn unedig ac yn gyflawn,
dangos inni ffordd tangnefedd dy bresenoldeb llethol.
Codwn bobloedd Wcráin a Rwsia atat,
pob plentyn ac oedolyn.
Dyhëwn am yr adeg
pryd y caiff arfau rhyfel eu troi yn sychau aradr
pryd na fydd cenedl yn codi cleddyf yn erbyn cenedl.
Codwn ein llais atat am heddwch;
diogela’r rhai sy ond yn dymuno ac yn haeddu byw mewn diogelwch .
Cysura’r rhai sy mewn ofn am eu bywyd a bywyd eu ceraint.
Bydd gyda’r rhai sy’n galaru.
Newid galon y rhai sy’n mynnu trais ac ymosodiad
a llenwa arweinwyr gyda’r doethineb sy’n arwain at heddwch.
Cynnau ynom eto gariad am gymydog,
ac angerdd dros gyfiawnder
a chydnabyddiaeth newydd fod gennym i gyd ran mewn heddwch.
Greawdwr pawb, clyw ein gweddi
a thyrd â heddwch. Gwna ni’n gyflawn.

Amen.